

## Eich canllaw i Ddod o hyd i gymorth cyfreithiol arbenigol

### Cymorth arbenigol

Mae llawer o gyfreithwyr yn canolbwyntio ar un neu ddau o feysydd y gyfraith. Gallant gynnig cyngor a gwasanaethau cyfreithiol medrus a phroffesiynol.

Mae rhai cyfreithwyr wedi'u hachredu gan Gymdeithas y Cyfreithwyr yn eu maes arbenigol. Mae gan arbenigwyr sydd wedi'u hachredu gan Gymdeithas y Cyfreithwyr – a elwir yn aelodau o'r cynllun achredu – sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol sy'n cael eu profi a'u hardystio yn erbyn y safonau uchaf.

Mae aelodau'r cynllun yn cynnig cymorth arbenigol gyda phroblemau a materion mewn llawer o feysydd yn y gyfraith:

- Cyfraith plant
- Cyfryngu sifil a masnachol
- Esgeuluster clinigol
- Trawsgludo
- Ymglyfreitha troseddol
- Cyfraith teulu
- Cyfryngu teuluol
- Cyfraith mewn fudo a lloches
- Iechyd meddwl
- Anafiadau personol
- Cyfraith cynllunio

### Ble i edrych

Ewch i [www.lawsociety.org.uk/findasolicitor](http://www.lawsociety.org.uk/findasolicitor) i chwilio am fanylion cyswllt aelod o'r cynllun sy'n agos atoch.


Mewn cyfeirlyfrau ffôn neu ar y stryd fawr, chwiliwch am gyfreithwyr sy'n arddangos logos cynlluniau achredu Cymdeithas y Cyfreithwyr; dim ond practisau sydd ag aelodau o gynlluniau sy'n eu harddangos.



Cysylltwch ag aelod o'r **Cynllun Achredu Cyfraith Plant** os oes angen cymorth arbenigol arnoch gyda materion megis achosion gofal, achosion o deuluoedd yn chwalu, trefniadau preswyl, cyswllt, amddiffyn brys, mabwysiadu, cyfrifoldeb rhieni a hawliau dynol.



Mae cyfryngu yn cynnwys trydydd parti hyfforddedig, niwtral yn defnyddio ei sgiliau i helpu dwy ochr mewn anghydfod i'w ddatrys, heb fynd i gyfraith. Er y gall aelodau'r **Cynllun Achredu Cyfryngu Sifil a Masnachol** arbenigo mewn mathau penodol o anghydfodau, mae ganddynt sgiliau datrys anghydfodau a chyfryngu cyffredinol da.



Mae aelodau'r **Cynllun Achredu Esgeuluster Clinigol** yn rhoi cyngor a chymorth o ran hawliadau sy'n deillio o faterion esgeuluster meddygol neu ddeintyddol.



Mae prynu neu werthu tŷ yn un o'r trafodion mwyaf y bydd y rhan fwyaf ohonom yn eu gwneud yn ystod ein bywydau. Drwy ddewis aelod o'r **Cynllun Ansawdd Trawsgludo** gallwch fod yn siŵr bod eich trawsgludwr yn cyrraedd y safonau uchel a bennwyd gan Gymdeithas y Cyfreithwyr ac y cewch wasanaeth trawsgludo proffesiynol o safon uchel.



Os ydych wedi cael eich cyhuddo o drosedd bydd aelod o'r **Cynllun Achredu Ymglyfreitha Troseddol** yn gallu rhoi cyngor i chi. Mae ganddynt brofiad o helpu unigolion sydd wedi'u cyhuddo o droseddau. Troseddau moduro yw'r rhai mwyaf cyffredin.



Mae aelodau'r **Cynllun Achredu Cyfraith Teulu** yn arbenigo mewn materion sy'n ymwneud â chyfraith teulu megis ysgaru, gwahanu, rhannu asedau teulu, cyd-fyw, cynhaliaeth ac anghydfodau teuluol.

## *Eich canllaw i* Ddod o hyd i gymorth cyfreithiol arbenigol



Mae aelodau'r **Cynllun Achredu Cyfraith Teulu Uwch** yn rhoi cyngor a chymorth i gleientiaid mewn achosion mwy cymhleth sy'n ymwneud â chyfraith teulu.



Cysylltwch ag aelod o'r **Cynllun Achredu Cyfryngu Teuluol** os oes angen gwasanaethau cyfryngu arnoch mewn anghydfodau teuluol neu briodasol. Gall cyfryngwyr teuluol arbenigo ym meysydd cyfryngu ariannol neu gyfryngu sy'n ymwneud â phlant yn unig.



Gall cyfreithwyr a chyflogeion cyfreithwyr sy'n aelodau o'r **Cynllun Achredu Mewnfudo a Lloches** helpu gyda cheisiadau am loches, ceisiadau mewnfudo yn gyffredinol a cheisiadau mewnfudo sy'n ymwneud â busnes. Maent hefyd yn rhoi cyngor ar agweddau ar les, y system gyfreithiol, cymorth cyfreithiol, trethi a materion corfforaethol sy'n effeithio ar fewnfudwyr a cheiswyr lloches. a 10% o'r pris prynu.



Mae pob arbenigwr cyfreithiol ym maes mewnfudo a lloches a achredwyd gan Gymdeithas y Cyfreithwyr yn cael ei archwilio a'i brofi'n drylwyr i ddangos bod ganddo lefel uchel o wybodaeth, sgiliau a phrofiad. Os yw eich achos yn un cymhleth, efallai y byddwch am ddod o hyd i aelod o'r **Cynllun Cyfraith Mewnfudo Uwch**.



Mae aelodau'r **Cynllun Achredu Iechyd Meddwl** yn cynrychioli ac yn rhoi cyngor i gleifion mewn gwrandawadau triwlynlysoedd lle yr adolygir achosion cleifion a gadwyd dan orchymyn ac y gwneir penderfyniadau ynghylch eu rhyddhau. Mae aelodau yn aml yn cynnig cymorth cyfreithiol ar agweddau eraill ar salwch meddwl ac analluogrwydd.



Mae aelodau'r **Cynllun Achredu Anafiadau Personol** yn cynrychioli ac yn rhoi cyngor i unigolion sydd wedi cael anaf personol a pherthnasau'r rhai sydd wedi'u hanafu'n angheuol o ganlyniad i weithred o esgeuluster honedig a/neu dorri dyletswydd statudol.



Mae aelodau'r **Cynllun Achredu Cyfraith Cynllunio** yn rhoi cyngor ar bob agwedd ar y broses gynllunio – gan gynnwys ceisiadau ac apeliadau cynllunio, gorfodi, ceisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig a chaniatâd ardal gadwraeth, prynu gorfodol, gorchmynion cadw coed, datblygu ar dir halogedig a sefyllfaoedd eraill lle mae rheolaethau cynllunio arbennig yn gymwys.

Ewch i [www.lawsociety.org.uk/accreditation](http://www.lawsociety.org.uk/accreditation) am ragor o fanylion am wasanaethau a gynigir gan arbenigwyr achrededig Cymdeithas y Cyfreithwyr.

## *Eich canllaw i*

# Ddod o hyd i gymorth cyfreithiol arbenigol

## Rhagor o wybodaeth

Mae'r daflen hon yn un o gyfres o daflenni am ddim sy'n ymdrin â'r mathau mwyaf cyffredin o wasanaethau cyfreithiol a ddarperir gan gyfreithwyr. Rhestrir taflenni eraill yn y gyfres isod.

Maent ar gael oddi wrth eich cyfreithiwr neu o  
[www.lawsociety.org.uk/commonlegalproblems](http://www.lawsociety.org.uk/commonlegalproblems)

- Eich canllaw i brynu cartref
- Eich canllaw i wneud ewyllys
- Eich canllaw i gael ysgariad
- Eich canllaw i broblemau yn y gwaith
- Eich canllaw i sefydlu busnes
- Eich canllaw i wneud cais am iawndal oherwydd anaf personol
- Eich canllaw i faterion ariannol ar gyfer pobl hŷn
- Eich canllaw i roi eich eiddo ar rent
- Eich canllaw i rentu cartref
- Eich canllaw i ddefnyddio cyfreithiwr
- Eich canllaw i brofiant
- Eich canllaw i hawlio lloches
- Eich canllaw i ymgartrefu gyda'ch partner

Gallwn ddarparu'r wybodaeth yn y daflen hon  
mewn fformatau ac ieithoedd eraill ar gais.

Cysylltwch â ni ar **020 7320 5832** neu e-bostiwch  
[accessibility@lawsociety.org.uk](mailto:accessibility@lawsociety.org.uk)

# Lexcel

Chwiliwch am Lexcel – y nod rhagoriaeth ar gyfer cyfreithwyr

The Law Society 113 Chancery Lane London WC2A 1PL [www.lawsociety.org.uk](http://www.lawsociety.org.uk)

Er i ni wneud pob ymdrech i ddarparu gwybodaeth gywir, mae'r gyfraith yn newid o hyd ac yn effeithio ar bob person yn wahanol. Nid yw'r daflen hon yn disodli cyngor penodol a roddir i chi yn bersonol ac ni fyddwn yn atebol i chi os byddwch yn dibynnu ar y daflen hon.